

# FLVC Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol

## Nodiadau Canllaw

### Pwrpas Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol

Bydd Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol (VSRF) yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau ar draws cymdeithas o ganlyniad i bandemig Covid-19. Gwnaeth llawer o gymunedau ddioddef yn anghymesur; felly, mae angen cymryd camau i sicrhau adferiad teg a chyfiawn.

Bydd grantiau'n cefnogi sefydliadau dielw sy'n gweithio ar lefel gymunedol yn Sir y Fflint, a gallant fod hyd at uchafswm o £ 2,000.

### Sut gellir defnyddio'r cyllid?

Bydd y cyllid yn cyflwyno'r adnoddau i'r Trydydd Sector ymwreiddio arferion diogel er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol ledled Sir Fflint. Mae'r gronfa'n canolbwyntio'n bennaf ar gyllid refeniw; fodd bynnag, gall eich cais am gyllid gynnwys costau ar gyfer prynu cyfarpar 'cyfalaf' llai o faint, gan gynnwys defnyddiau traul (er enghraifft, cyfarpar diogelu personol, sgriniau ac ati).

Rhaid gwario pob grant a chwblhau prosiectau erbyn 30 Mehefin 2021.

### Diben y Gronfa hon ydy:

- Cynnal neu gynyddu gweithgareddau sy'n cefnogi pobl fregus yn ystod y pandemig Coronafeirws (Covid-19).
- Sicrhau bod gan fudiadau'r trydydd sector / y sector gwirfoddol yr adnoddau angenrheidiol i barhau i gynnig gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau.
- Sicrhau bod modd i fudiadau'r trydydd sector / y sector gwirfoddol i addasu i ddiwallu anghenion newydd a mynd i'r afael â heriau newydd.
- Annog protocolau iechyd a diogelwch llym yn ystod yr holl weithgareddau sy'n diogelu staff gwirfoddolwyr a buddiolwyr y trydydd sector / sector gwirfoddol.

### Pwy all wneud cais?

Gall sefydliadau wneud cais os ydynt yn fudiad y trydydd sector/y sector wirfoddol (nid-er-elw) ac yn annibynnol o'r llywodraeth a'r sectorau preifat a chyhoeddus:

- Elusen Gofrestredig

- Grŵp wedi'i gyfansoddi
- Grŵp Buddiant Cymunedol
- Cwmni Cyfyngedig drwy Warant
- Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus (IPS)
- Sefydliad Ariannol Cydfuddiannol

Yn ogystal:

- Mae'n rhaid i'r cyllid fod ar gyfer gweithgareddau/ gwasanaethau sy'n gweithredu o fewn Sir Y Fflint
- Mae'n rhaid i'ch sefydliad fod â chyfrif banc ei hun, neu gyfrif banc yn enw 'Ymddiriedolwyr [enw'r sefydliad]'
- Sydd ag o leiaf 2 lofnodwr awdurdodedig.

Sylwch mai dim ond un cais y gall pob sefydliad ei wneud

## Eithriadau

Mae'r sefydliadau canlynol yn anghymwys a ni chânt wneud cais:

- Sefydliad gwleidyddol
- Sefydliad statudol
- Sefydliad preifat
- Unigolyn
- Grŵp sydd ddim yn sefydledig

Yr hyn na ellir ei gyllido o dan VSRF:

- Ni fydd grantiau'n cael eu dyfarnu'n ôl-weithredol, h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn y llythyr cynnig grant a'r telerau ac amodau wedi'u llofnodi.
- Ni fydd gweithgareddau sy'n syrthio o fewn y sector statudol yn cael eu cefnogi, e.e. unrhyw beth sy'n syrthio o fewn darpariaeth y GIG, cwricwlwm yr ysgol ac ati
- Pan fo grantiau eraill ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau penodol, disgwylir y bydd y rhain yn cael eu defnyddio lle'n bosibl, yn hytrach na VSRF.
- Gwasanaethau llinell gymorth ffôn.
- Mentrau cyflogadwyedd a sgiliau
- Gweithgareddau proselyteiddio
- Ddarparwyr gofal plant
- Gall costau TG gael eu hystyried mewn achosion lle mae pryniannau'n hanfodol, os hoffech gyflwyno cais gyda chostau TG, cysylltwch â'r tîm i drafod cyn cyflwyno cais.

## Sut i wneud cais

Mae ffurflenni cais ar gael i'w lawr-lwytho oddi ar wefan FLVC.

I gael rhagor o wybodaeth a chymorth gyda'r cais am gynllun grant, cysylltwch â Heather Hicks – [heather.hicks@flvc.org.uk](mailto:heather.hicks@flvc.org.uk) neu ffoniwch 01352 744004.

Dychwelwch y ffurflen gais wedi'i llenwi at:-

**Heather Hicks, Swyddog Cyllid FLVC**

E-bost: [Heather.hicks@flvc.org.uk](mailto:Heather.hicks@flvc.org.uk)